# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 2il o Ionawr 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad y Dirprwy Arweinydd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mair Rowlands |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Dirprwy Arweinydd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau'r Cynllun Strategol a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4 PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

***Tlodi, Economi, Tai***

4.1 **T2 Cadw'r Budd yn Lleol**

4.1.1 Fe esboniais wrthoch yn fy adroddiad diwethaf i chi ar 5 Medi na fuaswn yn adrodd ar y prosiect hwn ar wahân bellach, gan fod y gwaith yn rhan o gyfrifoldebau craidd yr adran. Mae'r mesurau sy'n berthnasol i'r gwaith, serch hynny, wedi eu cynnwys ar ddechrau Atodiad 1, a hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith ein bod bellach yn adrodd ar wariant refeniw yn unig, ac yn eithrio gwariant cyfalaf. I'r dyfodol byddaf hefyd yn cadw golwg na fydd canlyniadau ein cynlluniau arbedion yn arwain at newidiadau gormodol i'n nod o brynu'n lleol.

***Y Gymraeg***

4.2 **I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg**

4.2.1 Mae'r prosiect yn dal i fynd yn ei flaen o fewn cymunedau Bangor, Dolgellau a Phorthmadog/Pwllheli a cheir crynodeb o'r prif weithgareddau isod. Mae gweithgareddau yn y bedair ardal wedi eu rhannu o dan dri prif bennawd, sef 1) Plant a Phobl Ifanc, 2) Y Gymuned, 3) Byd Busnes. Fe'ch atgoffir fod y rhaglen waith ar gyfer y prosiect wedi ei chyd gytuno gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r gwaith trwy Hunaniaith.

**4.2.2 Datblygiadau sirol**

Mae Swyddog Byd Busnes wedi ei benodi i weithio ar y cyd rhwng Hunaniaith a Menter Iaith Môn, i weithio yn benodol gyda busnesau. Mae'r swydd yn cael ei hariannu gan grant gan y Llywodraeth, ac yn rhan o gynllun sydd yn cael ei weithredu a'i gydlynu gan Mentrau Iaith Cymru. Cynhaliwyd cynhadledd ar gyfer cynrychiolwyr o bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd i drafod syniadau am sut y gallai'r bobl ifanc hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu cyfoedion. Cynhaliwyd, hefyd, sesiwn hyfforddiant ar gyfer gweithwyr sydd yn cynnal gweithgareddau ar gyfer plant cyn oed ysgol a'u rhieni yn y gymuned.

4.2.2 **Bangor**
Mae'r cynnydd ar raglen waith Bangor ar gyfer y cyfnod hwn wedi bod yn araf yn sgil absenoldeb y Swyddog Datblygu, ond mae tri darn o waith wedi

cael eu comisiynu ar gyfer y tri maes gwaith, gyda sesiynau wedi eu trefnu i ledaenu gwybodaeth am apiau Magi Ann a Selog (cymeriadau mentrau iaith ar gyfer plant ifanc) yn ysgolion Bangor, sesiynau awyr agored ar gyfer disgyblion Ysgol Tryfan a seminar wedi ei threfnu ar gyfer darparwyr gofal cychwynnol y ddinas (dilyniant o waith yn gynharach yn y flwyddyn).

4.2.3 **Dolgellau**

Mae'r gwaith gyda plant a phobl ifanc yn cynnwys –

Mae aelodau Mudiad Adloniant Dolgellau (MAD) yn dal i fod yn weithgar yn y gymuned, yn cynnal gig llwyddiannus ym mis Hydref, gyda 81 o bobl ifanc dan 18 oed yn mynychu. Bu cynrychiolaeth hefyd yn rhannu eu profiadau fel rhan o gynhadledd a drefnwyd gan Hunaniaith ar gyfer pobl ifanc. Bu aelodau'r mudiad hefyd yn bresennol yn y Sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr sy'n arfogi'r bobl ifanc i fod yn arweinwyr a modelau rôl drwy eu galluogi i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer eu cyfoedion. Cynhaliwyd sesiynau i gynyddu defnydd y grŵp lleol o'r Geidiaid o'r Gymraeg, gan gynnwys rhannu adnoddau megis geirfa a thempledi posteri gyda'r arweinydd, sydd yn ddysgwr, er mwyn gwella ei gallu i ddarparu yn ddwyieithog, a threfnu gweithgareddau fel gweithdy creu lanterni ar gyfer y grŵp.

Mae'r gwaith gyda'r gymuned leol yn cynnwys cynnal taith gerdded i ddathlu diwrnod ShwmaeSumai; cyfrannu at Ddiwrnod Hwyl Calan Gaeaf a bu Cyfarfod Partneriaeth Dolgellau yn rhannu gwybodaeth am y Cynllun Cyfieithu Cymunedol, a arweiniodd at archebu'r gwasanaeth ar gyfer cyfres o 5 cyfarfod hyd at ddiwedd Mawrth 2018. Bu llawer o waith hefyd yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau gyda busnesau lleol

4.2.4 **Porthmadog/Pwllheli**

Mae'r gwaith gyda'r gymuned leol yn cynnwys cynnal noson lwyddiannus o adloniant wedi ei chynnal yn y Clwb Golff ym Mhwllheli gyda Wil Tân, gydag oddeutu 75 o drigolion lleol yn bresennol. Mae'r clwb wedi mynegi diddordeb i lwyfannu nosweithiau pellach gydag artistiaid Cymraeg. Cynhaliwyd bore coffi i nodi 'Diwrnod Su' Mae' yn y Ganolfan, Porthmadog a mynychodd 19 o ddysgwyr a 6 o siaradwyr iaith 1af y digwyddiad. Cafwyd cydweithio effeithiol gyda Cymraeg i Oedolion Coleg Meirion Dwyfor a Merched y Wawr yn ogystal.

Mae'r gwaith gyda byd busnes a thwristiaeth yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arweiniad gyda dau fusnes twristiaeth i gynyddu defnydd o'r Gymraeg sef Tafarn y Cnu Aur, Tremadog a Gwesty Tudor Lodge, Porthmadog. Rhoddwyd gyflwyniadau i Gyngor Tref Porthmadog ac I Cyngor Dolbenmaen I drafod ffyrdd y gallant fod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn eu cymunedau ac I rannu gwybodaeth am y Cynllun Cyfieithu Cymunedol.

4.3 **I2 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus**

4.3.1 Oherwydd amgylchiadau staffio mewnol a'r ffaith nad yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eto wedi sefydlu ei gynllun llesiant ni fu cynnydd mawr. Gydag ymddeoliad y swyddog o fewn y Cyngor sydd wedi bod yn arwain y prosiect ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rwyf wedi gofyn am gadarnhad ynghylch arweinyddiaeth y prosiect i'r dyfodol.

4.4 **I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd**

4.4.1 Bu ychydig o gynnydd yn y misoedd diwethaf oherwydd amgylchiadau staffio mewnol. Serch hynny mae nifer o sesiynau ymwybyddiaeth iaith wedi eu cynnal, holiaduron am anghenion wedi eu rhannu, a thrafodaethau wedi bod i gynllunio hyfforddiant addas.

4.4.2 Rwy'n cytuno â bwriad yr Uned Iaith Gymraeg i ddefnyddio'r amser rwan i asesu'r dulliau gweithredu presennol er mwyn gallu gweld canlyniadau yn gynt, a chynllunio hyfforddiant priodol ar sail canlyniadau'r awdit, gan weithio ar draws y Cyngor ac nid o fewn adrannau penodol yn unig.

4.4.3 Hoffwn nodi bod y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Iaith yn parhau. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd cyfle i osod gofyniad ar adrannau'r Cyngor i greu cynlluniau gweithredu fydd yn dangos eu hymrwymiad i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol.

***Cyflawni'r Cynllun***

4.5 **FfG1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith**

4.5.1 Mae'r adolygiad o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Gwasanaeth Morwrol yn parhau, ac rydym yn dechrau gweld ffrwyth y gwaith. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y newidiadau i'n dulliau o weithio wedi arwain at well canlyniadau i bobl Gwynedd.

4.5.2 Cyn newid y dulliau gweithio roedd diffygion peryglus yn ardal Meirionydd yn arfer cael eu trwsio o fewn cyfartaledd o 15.5 diwrnod (gydag amrediad o 0 i 49 diwrnod), ond bellach mae'r gyfartaledd yn 1.1 diwrnod (amrediad o 0 i 5.4). Un wers allweddol a ddysgwyd yn y gwaith yma yw fod angen i'r Uned Ganolog ystyried a ydym yn creu gorddibyniaeth ar y staff sy'n gweithio ar raglen Ffordd Gwynedd i gynnal yr adolygiadau, ac i'r dyfodol a fyddai'n well disgwyl i'r rheolwyr o fewn yr adrannau fod yn arwain ar gynnal adolygiadau gwasanaeth, yn enwedig ar ôl derbyn hyfforddiant y 'rhaglen datblygu arweinwyr'.

4.5.3 Yn ogystal, mae dau adolygiad pellach newydd gychwyn yn yr Adain Gofrestru o fewn Adran Amgylchedd a'r Adain Incwm a Lles o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd adolygiad pellach yn cymryd lle o fewn y Gwasanaeth Hamdden dros y misoedd nesaf ac yn y Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu cyn diwedd 2017/18. Byddaf yn eich diweddaru ar eu datblygiad yn fy adroddiadau yn y dyfodol.

4.5.4 Erbyn hyn rydym wedi dechrau sesiynau hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr y Cyngor gyda 70 wedi mynychu erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd y sesiynau hyn yn golygu y bydd holl reolwyr y Cyngor wedi eu trwytho yn egwyddorion Ffordd Gwynedd gan sicrhau fod dealltwriaeth ganddynt o'r cysyniadau perthnasol a beth y gallant ei wneud er mwyn lledaenu'r ffordd o feddwl o fewn eu hunedau. Y bwriad yw y bydd yr holl Reolwyr wedi dilyn y cwrs erbyn diwedd 2017/18.

4.6 **FfG2 Rhaglen datblygu arweinwyr**

4.6.1 Mae'r rhaglen hon ar gyfer datblygu arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn digwydd ar lefel aelodau'r cabinet ac ar lefel Uwch Swyddogion o fewn y Cyngor.

4.6.2 O ran yr aelodau mae yna 5 aelod o'r Cabinet yn manteisio ar sesiynau cymhelliant tra bod un aelod Cabinet (a thri aelod arall) yn dilyn rhaglen Arwain Cymru. Bwriedir cynnal gweithdy gyda holl aelodau'r Cabinet cyn hir er mwyn eu cyflwyno i gysyniad "The five behaviours of a cohesive team".

4.6.3 Mae yna waith yn mynd ymlaen hefyd i geisio sefydlu diffiniad cryno o'r hyn a olygir drwy "arweinyddiaeth" yma yng Ngwynedd ac erbyn y cyfarfod nesaf byddwn yn sicr o fedru adrodd ymhellach ar hyn.

4.7 **FfG3 Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

4.7.1 Rwy'n falch bod Grwp Cyfranogi Pobl Ifanc wrthi'n cael ei sefydlu fydd yn gweithio hefo pobl ifanc sydd eisoes yn aelodau o'n Panel Ieuenctid, yn cryfhau cyfranogiad y rhai sydd mewn gofal, ac yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed.

4.7.2 Rwy'n fodlon gyda pherfformiad yr adran wrth gynnig gwasanaeth i gefnogi Adrannau'r Cyngor sy'n ymgysylltu â phobl Gwynedd (sgôr o 9 neu 10 allan o 10 fel mae Atodiad 1 yn ei nodi). Rwyf hefyd yn fodlon bod yr Adran Gyfathrebu am oedi hyd nes 2018/19 cyn cynnal awdit o allu gweddill Adrannau'r Cyngor i gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain am gynlluniau ymgysylltu. Rhydd hyd amser teg i egwyddorion Ffordd Gwynedd dreiddio drwy'r gweithlu.

4.8 **FfG4 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

4.8.1 Rwy'n falch iawn bod y Cabinet wedi derbyn Cynllun Busnes Prosiectau Hunanwasanaeth yn ein cyfarfod ar 3 Hydref. Ers hynny, ar 13 Tachwedd, gwelwyd nifer o wasanaethau ar gael i'n trigolion drwy gysylltu neu archebu ar gyfrifon ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys ail-archebu casgliad gwastraff gardd neu dalu am ginio ysgol. Erbyn hyn mae gennym bellach 34,488 o gyfrifon o'i gymharu â 22,647 yn Hydref 2016, a hoffwn gydnabod gwaith ein staff yn y ganolfan alw, Galw Gwynedd, am eu cymorth yn rhannu gwybodaeth a chynorthwyo'n trigolion i symud i ddefnyddio hunanwasanaeth ar-lein.

4.8.2 Bydd mwy o wasanaethau ar gael drwy'r dull hunanwasanaeth yn y flwyddyn newydd. Bydd gen i fwy o wybodaeth i'w adrodd i chi yn fy adroddiad nesaf, ac edrychaf ymlaen at weld y niferoedd sy'n defnyddio'r systemau hunanwasanaeth yn cynyddu.

***Cynllunio Ariannol***

4.9 **CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**

4.9.1 Yn ein cyfarfod ar 3 Hydref, fe dderbyniodd y Cabinet **Fodel Amgen er mwyn Darparu Cyfleusterau Hamdden**. Bydd manylion pellach ar sut y gallwn wireddu'r cynllun yn dod ger bron y Cabinet ar ddechrau 2018.

5 **PERFFORMIAD**

5.1 Ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn ***Atodiad 1.*** Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith fewn yr **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ynghyd â'r **Gwasanaeth Cyfreithiol**.

5.2 **Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant** – Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y blynyddoedd ar reolaeth iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Serch hynny mae'n hanfodol yn sgîl yr holl drawsnewid Gwasanaethau ayb fod rheolwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol i fod yn adnabod a rheoli risgiau, ac mae rhai rheolwyr sy'n parhau i fod heb fynychu hyfforddiant. Nid yw hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ddewisol. Mae'n ofynnol i bob Adran sicrhau fod rheolwyr sy'n rheoli risgiau arwyddocaol wedi mynychu hyfforddiant. Bydd y mater hwn yn derbyn sylw o fewn fframwaith medrusrwydd cyflogaeth y Cyngor er mwyn sicrhau fod atebolrwydd ar unrhyw reolwr sydd yn peidio mynychu a / neu yn peidio gweithredu unwaith eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

5.3 Mae **Uned Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth.

5.4 Trafodwyd y mesur **Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Galw Gwynedd** *ac mae'r ganran roddodd sgôr o lai na 10 wedi syrthio o* 28% i 25%. Er hynny, mae 9% o'r rheiny wedi rhoi sgôr o 1 ond heb esbonio pam (holiadur electronig). Heb i ni wybod beth yw natur y gŵyn mae'n anodd iawn i ni wella'r gwasanaeth i'r dyfodol.

5.5 Mae'n galonogol iawn bod Galw Gwynedd bron iawn a chyrraedd eu targed o ateb galwadau ffôn o fewn 40 eiliad ar gyfartaledd. Mae'r perfformiad wedi gwella ers mis Ebrill, a'r cyfartaledd presennol ydi 41 eiliad.

5.6 O'r 666,820 o unigolion a ymwelodd â **gwefan y Cyngor** rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref eleni, fe wnaeth 580 gwblhau holiadur bodlonrwydd. O'i gymharu â chanlyniadau y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin, mae'r ganran a roddodd sgôr o 5 allan o 5 wedi cynyddu o 72% i 86% ac mae'r

ganran sy'n anfodlon â'r wefan wedi syrthio o 24% i 12.5%. Yr hyn sy'n bwysig hefyd wrth gwrs ydi bod 100% o'r ymholiadau sy'n ein cyrraedd drwy'r wefan naill ai wedi cael eu datrys (a 79% o'r rheiny o fewn 24 awr) neu ynghanol cael eu datrys.

5.7 Mae'r **Uned Gaffael** yn galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian a chadw'r budd yn lleol yn y maes caffael. Gwelir fod rhywfaint o gynnydd yn y mesurau sy'n mesur gwariant lleol dros y 2 flynedd diwethaf gyda'r ***Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau sydd a'i bencadlys neu gangen yng Ngwynedd a gwariant lleol drwy is-gontractau*** wedi cynyddu i 62% yn chwarter 2 2017/18 o'i gymharu â 59% yn yr un chwarter yn 2016/17. Yn fwy na hynny rydym wedi mynd ymhell y tu hwnt i'n targed o gwblhau arbedion caffael yr achos busnes rheolaeth categori o 150%.

5.8 Fodd bynnag, wrth drafod y mesur cytunais bod angen cadw golwg ar y sefyllfa fel na fydd y gofynion arbedion sydd arnom fel Cyngor yn arwain at ddirywiad yn ein gwariant caffael gyda chwmnïau lleol.

5.9 Yn dilyn herio perfformiad y **Gwasanaeth Cyfreithiol** rwy'n hapus gyda chynnydd y gwaith. Mae'r Gwasanaeth yn darparu mwy o waith cytundeb i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, ac mae'r gwaith hwn yn dod ag incwm yn ei sgîl.

5.10 Rwy'n falch o fedru cadarnhau hefyd bod y Comisiwn Etholiadol wedi dyfarnu ein bod wedi cyrraedd y safon angenrheidiol wrth weinyddu etholiadau Llywodraeth Leol ac Etholiad Cyffredinol 2017.

5.11 Dros y 4 blynedd diwethaf, o fewn y maes **Rheoli Gwybodaeth** rydym wedi gweld achosion o gamgyfeirio gwybodaeth yn lleihau ond eleni gwelwyd cynnydd bychan. Wrth herio'r perfformiad nodwyd fod yna nifer o resymau ond rwyf wedi gofyn i'r Uned ystyried a oes modd cymryd camau i oroesi rhai o'r rhesymau ac i ni gael sgwrs am hyn yn ein cyfarfod perfformiad nesaf.

5.12 Prif faterion perfformiad yn unig a nodir uchod wrth gwrs. Tra fy mod wedi cael trafodaethau manwl ar amrywiol faterion eraill o fewn y gwahanol unedau, rwyf yn fodlon fod perfformiad gweddill yr unedau hynny o fewn yr amrediad perfformiad disgwyliadwy.

## 6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

6.1 Mae holl gynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer 2017/18 wedi eu gwireddu a ni ragwelir problem mewn gwireddu'r ddau gynllun sydd wedi eu hadnabod ar gyfer 2018/19. Mae gwaith ar y gweill o fewn yr Adran ar hyn o bryd i edrych ar opsiynau petai angen arbedion pellach o 2019/20 ymlaen.

## 7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhan 6 o'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir o ran gwireddu'r arbedion: hynny yw, fod yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi gwireddu cynlluniau 2017/18 ac 'ar drac' i wireddu'r 2 arbediad pellach yn 2018/19.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad